



Ein cyf/Our ref: MA-L/JM/0484/19

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddCYPE@cynulliad.cymru

12 Gorffennaf 2019

Annwyl Lynne

Diolch yn fawr i chi am eich llythyr dyddiedig 26 Mehefin ynghylch Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru): ymwybyddiaeth plant.

Prif nod y Bil hwn yw helpu i ddiogelu hawliau plant ac felly rydym wedi ymrwymo i godi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth ymhlith plant.

I wneud hyn yn y ffordd fwyaf effeithiol a phriodol, rydym wrthi'n ymgynghori ag arbenigwyr yn y trydydd sector ar arferion gorau yn y maes cyfathrebu arbenigol hwn. Y prif gyfrwng ar gyfer hyn yw Grŵp Rhanddeiliaid Arbenigol y Bil, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Gomisiynydd Plant Cymru, NSPCC Cymru, Barnardo's Cymru, Plant yng Nghymru, Achub y Plant a Gweithredu dros Blant.

Ein bwriad yw ymgynghori â Cymru Ifanc, drwy Plant yng Nghymru, cyn cael Cydsyniad Brenhinol, er mwyn clywed eu barn a fydd yn helpu i lywio ein cynlluniau ymgysylltu pe bai'r Bil yn dod yn gyfraith. Byddwn hefyd yn cwrdd â sefydliadau fel Cwlwm i drafod sut i sicrhau bod oedolion sy'n gofalu am blant cyn-ysgol yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth ac i wneud yn siŵr bod ganddynt adnoddau priodol.

Yn fy marn i, byddai'n fwy priodol cynnwys y gwaith codi ymwybyddiaeth yn y mentrau sy'n bodoli ar hyn o bryd, er mwyn eu rhoi yng nghyd-destun hawliau plant a'u trafod mewn lleoliad addas a phriodol. Rwy'n gwybod bod y Grŵp Rhanddeiliaid Arbenigol yn cytuno â hyn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd fy swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr sy'n goruchwylio datblygiad y cwricwlwm newydd i sicrhau bod amcanion y ddeddfwriaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith hwn. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r Comisiynydd Plant a'r NSPCC i ddeall sut y caiff ei gynnwys yn eu prosiectau nhw ar gyfer ysgolion.

Mae'r canllawiau'n darparu ar gyfer dysgu i wella dealltwriaeth o hawliau plant, a hynny yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles a Dyniaethau. Mae cydweithwyr yn y maes addysg hefyd wedi gweithio gyda swyddfa'r Comisiynydd Plant i sicrhau bod y canllawiau'n helpu gweithwyr proffesiynol i ystyried addysg hawliau ar draws y cwricwlwm cyfan.

Caiff ein cwricwlwm newydd ei gynllunio ar sail pedwar diben. Mae'r rhain yn ganolog i'r holl benderfyniadau a wneir mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd, ac un o'r dibenion hyn yw cefnogi plant a phobl ifanc i ddod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn sicrhau'r Pwyllgor o'm hymrwymiad i godi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth ymhlith plant.



Julie Morgan AC/AM

Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Julie Morgan AC
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

26 Mehefin 2019

Annwyl Julie

Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru): ymwybyddiaeth plant


Yn ystod ein gwaith craffu ar y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru), mae nifer o'r rhai sydd wedi rhoi tystiolaeth ysgrifenedig a llafar wedi codi pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r ddeddfwriaeth os caiff ei phasio.

Prif ffocws y cyfraniadau hyd yn hyn fu codi ymwybyddiaeth ymhlith oedolion, yn enwedig rhieni, gofalywyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol. Fel Pwyllgor, rydym hefyd yn ymwybodol o bwysigrwydd ystyried sut y byddai ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth yn cael ei chodi ymhlith plant.

Fel y cyfryw, byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu unrhyw wybodaeth sydd gennych am y camau rydych wedi'u hystyried/y byddwch yn eu hystyried wrth baratoi i godi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth ymhlith plant, gan gynnwys plant dan oed ysgol. Byddem yn arbennig o ddiolchgar gwybod mwy am y dulliau gweithredu sy'n cael eu datblygu/a fydd yn cael eu datblygu (a sut), a'ch asesiad o lefel debygol yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gweithgarwch o'r fath.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Gomisiynydd Plant Cymru i ofyn am ei barn hi am y mater hwn.

Yn gywir



Lynne Neagle AC
Cadeirydd

